Beibl i Blant

yn cyflwyno

Gwyrthiau Iesu

Awdur: Edward Hughes
Lluniau gan: Byron Unger; Lazarus
addaswyd gan: E. Frischbutter; Sarah S.
Cyfieithydd: Catrin Roberts
Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

BFC
PO Box 3
Winnipeg, MB R3C 2G1
Canada

©2014 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon,
ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Fe wnaeth Iesu lawer o wyrthiau. Roedd y gwyrthiau yn dangos fod Iesu'n fab Duw. Digwyddodd y wyrth gyntaf mewn gwledd briodas. Roedd yno broblem. Doedd dim digon o win ar gyfer pawb.

Cafodd Iesu wybod am y broblem gan Mair, ei fam. Fe ddywedodd hi wrth y gweision am wneud beth bynnag fyddai Iesu'n dweud wrthyn nhw.



“Llanwch y potiau hyn gyda dŵr,” dywedodd Iesu. Tybed wnaethon nhw holi “Dŵr?” Ie – roedd Iesu wedi gofyn am ddŵr.



Yna dywedodd Iesu wrth un o'r gweision am roi diod allan o un o'r potiau i'r dyn oedd yn trefnu'r wledd iddo gael ei flasu. Roedd y dŵr wedi troi'n win! Gwin da! Y gwin gorau!

Roedd y gweision yn rhyfeddu. Roedd Iesu wedi troi dŵr yn win. Dim ond Duw oedd yn gallu gwneud gwyrth fel yna.





Fe wnaeth Iesu wyrthiau eraill hefyd. Un noson, aeth gyda'i ddisgyblion i gartref Pedr. Roedd mam yng nghyfraith Pedr yn sâl iawn gyda gwres uchel.

Cyffyrddodd Iesu â llaw y wraig sâl. O fewn eiliadau roedd hi wedi gwella. Cododd o'i gwely a pharatoi pryd o fwyd i Iesu a'r disgyblion.



Roedd hi'n ymddangos fel petai'r ddinas gyfan wedi dod at y drws y noson honno. Daeth pobl sâl yno – pobl oedd yn methu gweld, clywed, siarad, cerdded. Daeth hyd yn oed pobl hefo cythreuliaid y tu mewn iddyn nhw at Iesu. Oedd e'n gallu helpu yr holl bobl yma?

Oedd! Roedd Iesu, mab Duw yn gallu helpu, a dyna wnaeth e. Cafodd pawb eu gwella. Roedd pobl oedd wedi gorfod symud ar faglau nawr yn gallu cerdded a rhedeg a neidio.



Daeth pobl eraill hefyd – rhai oedd wedi dechrau edrych yn hyll oherwydd salwch y gwahanglwyf.

Cawson nhw eu gwella gan Iesu.

Dyma ddynion a merched oedd yn cael eu poeni gan gythreuliaid yn dod at Iesu. Gorchmynnodd i'r cythreuliaid adael llonnydd iddyn nhw. Pan ufuddhaodd y cythreuliaid, cafodd y bobl drist hyn dangnefedd a llawenydd.

Ceisiodd pedwar dyn helpu eu ffrind i fynd at Iesu, ond roedd yna ormod o dyrfa. Beth allen nhw ei wneud?

Fe wnaethon nhw gario'r dyn sâl
i ben to'r tŷ a dechrau tynnu'r
to yn ddarnau a gollwng
y ffrind i lawr nes ei
fod wrth ymyl
Iesu.

Gwelodd Iesu fod
y pedwar ffrind
yn credu ynddo.
Dywedodd, "Mae
dy bechodau wedi
eu maddau. Cod
ar dy draed,
cymer dy fatras
a cherdda."
Safodd y dyn
ar ei draed, yn
iach a chryf.
Roedd Iesu
wedi ei wella.

Yn fuan wedyn, roedd Iesu mewn cwch gyda'i ddisgyblion. Cododd storm ofnadwy ar y llyn. Roedd Iesu'n cysgu. Cafodd ei ddeffro gan ei ddisgyblion achos bod ganddyn nhw ofn. "Achub ni, Arglwydd, dyn ni'n siwr o farw!" gwaeddon nhw.

"Distaw! Byddwch lonnydd," gorchmynnodd Iesu i'r tonnau. Aeth y llyn yn dawel yn syth. "Pwy ydy hwn?" sibrydodd ei ddisgyblion. "Mae hyn yn oed y gwynt a'r tonnau yn ufuddhau iddo."
Roedden nhw'n credu bod Iesu yn fab Duw achos bod ei wyrthiau yn dangos pa mor fawr oedd e.
Doedd y disgyblion



ddim yn gwybod hyn, ond roedden nhw'n mynd i weld Iesu'n gwneud gwyrthiau mwy wrth wneud gwaith Duw ar y ddaear.



Gwyrthiau Iesu

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Mathew 8-9, Marc 1-2, Marc 4, Luc 4,
Luc 8, Ioan 2

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16